

CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd trwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 23 Tachwedd 2021 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; Julian Thompson-Hill, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

Arsylwyr: Y Cyngorwyr Meirick Davies, Alan James, Gwyneth Kensler, Christine Marston, Barry Mellor, Paul Penlington, Arwel Roberts, Glenn Swingler, Rhys Thomas ac Emrys Wynne

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Pennaeth Gwasanaeth: Y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democraidd (GW), Cyllid ac Eiddo (SG), Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW), Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ); Rheolwr Priffyrdd, Asedau a Risg (TT); Rheolwr Gwasanaeth (Gwasanaethau Cleientiaid); Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, Adfywio a Datblygu Economaidd (GR); Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol (CR); Rheolwr Busnes Rhanbarthol (CP); Rheolwr Prosiect Rhanbarthol (LPJ a SG); Rheolwr Fflyd (CB); Rheolwr Prosiect (JT); Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad (IM); Rheolwr Datblygu Tai (MD) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a SJ) [Gweddarlledwr]

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw fater bryd.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2021.

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2021 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

5 PONT LLANNERCH

[Symudwyd yr eitem hon ymlaen ar y rhaglen gyda chydsyniad y Cadeirydd]

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones yr adroddiad yn ceisio cefnogaeth y Cabinet i ddisodli Pont Llannerch (sydd wedi'i lleoli rhwng Trefnant a Thremeirchion), a gollwyd ym mis Ionawr 2021 yn ystod storm Christoph, yn amodol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol.

Roedd Pont Llannerch yn ffurfio rhan o lwybr a ddefnyddiwyd yn helaeth a chysylltiad pwysig ar gyfer cymunedau yn yr ardal. Roedd swyddogion wedi bod yn gweithio gydag ymgynghorwyr i ystyried beth allai fod yn bosibl yn nhermau gosod pont newydd yn ei lle a hefyd faint fyddai hyn yn ei gostio, ac oherwydd y lleoliad a'r elfennau technegol, daethpwyd i'r canlyniad y gallai gostio rhwng £6 miliwn a £7 miliwn ac fe fyddai'n amodol ar sicrhau'r cyllid perthnasol. Cynigwyd y dylid cymryd camau i geisio cyllid allanol, yn arbennig cysylltu â Llywodraeth Cymru, ac ymgymryd â pheth gwaith paratoi er mwyn datblygu achos busnes mwy cadarn, ac felly cynyddu'r potensial o ddenu cyllid allanol. Roedd ymarfer ymgysylltu cyhoeddus wedi cael ei gynnal a'r brif neges a ddeuai yn ôl oedd bod y gymuned eisiau i ni osod pont newydd yn lle'r bont a gwneud hynny cyn gynted â phosibl ac mae'r ymarfer hefyd wedi darparu tystiolaeth o gefnogaeth gymunedol sylweddol i gryfhau'r achos busnes. Roedd y Cynghorydd Jones yn gefnogol o ymdrechion yr aelodau lleol i sicrhau pont newydd ac eglurodd, er gwaethaf eu hymdrechion, nad oedd darparu pont newydd dros dro yn hyfyw o ystyried y cymhlethdodau sydd ynghlwm â chyflwr y tir a ffactorau eraill.

Roedd y Cabinet yn cydnabod gwerth Pont Llannerch i gymunedau gwledig ac yn gefnogol o argymhellion yr adroddiad. Ymatebodd y Cynghorydd Jones i gwestiynau gan gadarnhau y byddai unrhyw bont newydd a adeiladir yn bodloni safonau modern ac hefyd yn cymryd barn pobl leol i ystyriaeth i sicrhau ei bod yn ateb y gofyn, a'i bod hefyd yn debyg i'r bont rhestredig gradd II blaenorol. Roedd yn hyderus y byddai achos busnes cryf yn sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ac amlygodd y posibilrwydd o gynnwys teithio llesol a chysylltedd cymunedau i gryfhau'r achos ymhellach. Os na fyddai modd sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru, byddai ffynonellau cyllido allanol eraill yn cael eu hystyried. Nodwyd, er bod y bont wedi'i chynnwys ar restr y Cyngor o brosiectau posibl i'r dyfodol (o ystyried y posibilrwydd na fydd pont newydd yn cael ei hariannu'n llawn, ac y bydd angen cyfraniad ariannol o bosibl), nid oedd cyllid wedi cael ei ddyrannu hyd yma o fewn yr adnoddau cyfalaf cyfyngedig at y diben hwnnw.

Amlygodd yr Aelodau Lleol, y Cynghorwyr Christine Marston a Meirick Davies bwysigrwydd y bont i gymunedau lleol a'r effaith andwyol mae colli'r bont wedi'i chael yn gymdeithasol ac yn economaidd, ac mae hyn yn amlwg yn y cyfoeth o ymatebion a gafwyd i'r ymarfer ymgysylltu cyhoeddus. Roedd y Cynghorydd Davies hefyd yn teimlo y dylid cofnodi statws rhestredig y bont ac y dylai'r argymhelliad gael ei gryfhau ymhellach i sicrhau'r cyllid hanfodol ar gyfer pont newydd. Atebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion i bwyntiau a godwyd, ac roedd y cwestiynau pellach fel a ganlyn -

- ystyriwyd y dylid datblygu achos busnes cadarn cyn cysylltu â Llywodraeth Cymru i geisio cyllid yn ffurfiol, fodd bynnag, rhoddwyd gwybod i Lywodraeth Cymru yn y dechrau pan gollwyd y bont am fwriad y Cyngor i geisio cyllid ar gyfer pont newydd.
- o ystyried graddfa a natur y prosiect sydd ei angen o ganlyniad i'r llifogydd sylweddol, roedd yn rhesymol i'r Cyngor droi at Lywodraeth Cymru am gyllid – os na fyddai'r ymgais yn llwyddiannus, byddai'n rhaid i'r Cyngor ail-ystyried y sefyllfa.
- ystyriwyd pa mor ymarferol fyddai darparu pont dros dro a allai gostio oddeutu £1 miliwn, ond o ystyried y lleoliad a chyflwr y tir, a fyddai'n rhwystr i'r gwaith hwnnw, ni ystyriwyd y byddai'r opsiwn hwn yn ymarferol nac yn hyfyw
- o ran amserlen, roedd angen deall cyflwr y tir ar y safle yn llawn ac ymgymryd â gwaith modelu o ran yr afon er mwyn cael caniatâd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i ymgymryd â'r gwaith hanfodol, ac nid oedd yn debygol y byddai modd datblygu achos busnes digonol cyn haf 2022
- nid oedd ffrwd gyllido benodol wedi cael ei nodi eto gan mai'r bwriad oedd ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch ffrydiau cyllido posibl a allai fod ar gael.
- sicrhawyd y byddai aelodau lleol yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd wrth i waith ddatblygu drwy gynnal trafodaethau / cyflwyno adroddiadau rheolaidd i Grŵp Ardal Aelodau Elwy.

Cafwyd dadl bellach am eiriad yr argymhelliad ac roedd y Cabinet yn glir mai'r argymhelliad ar hyn o bryd oedd cytuno i geisio'r cyllid hanfodol i godi pont newydd drwy gysylltu â Llywodraeth Cymru ac ystyried ffynonellau cyllido allanol eraill. Os na fyddai'r dull hwn yn llwyddiannus, byddai'r cyngor yn ailystyried ei sefyllfa. Nododd y Cynghorydd Brian Jones unwaith eto ei fod yn cefnogi ymdrechion yr aelodau lleol i ddisodli'r bont a chytunodd i sicrhau bod momentwm y gwaith yn parhau gyda'r gobaith o ddatblygu achos busnes erbyn diwedd tymor y Cyngor.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cadarnhau cefnogaeth i'r egwyddor o osod pont newydd yn lle'r bont, yn ddibynnol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol i wneud hynny. Bydd hyn yn cynnwys cysylltu â Llywodraeth Cymru i ofyn am gyllid allanol.

6 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM FEIFOD

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley adroddiad ar ddyfodol Meifod yn dilyn ystyriaeth o'r opsiynau gan fudd-ddeiliaid perthnasol, Grŵp Tasg a Gorffen y Pwyllgor Craffu Perfformiad a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad. Cymerodd y cyfle hefyd i ddiolch i bawb a oedd wedi bod ynghlwm â'r broses am eu gwaith caled.

Roedd Meifod yn wasanaeth cyfleodd gwaith uchel ei barch i oedolion ag anableddau dysgu dan reolaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol. Roedd y gwasanaeth wedi'i leoli mewn uned ffatri a rentir yn Ninbych sy'n cynhyrchu ac yn gwerthu cynnyrch coed. Roedd y cyfleuster wedi bod ar gau ers mis Mawrth 2020 yn sgil y pandemig Covid-19 ac o ganlyniad, roedd y Cyngor wedi cymryd y cyfle i ystyried dyfodol y cyfleuster. Roedd pawb yn cytuno bod Meifod yn wasanaeth gwerthfawr ac yn cefnogi'r cynnig i ailagor y cyfleuster cyn gynted â phosibl; rhagwelwyd y byddai modd cwblhau'r gwaith hanfodol ac ailagor Meifod erbyn mis Chwefror. Roedd y brydles bresennol yn dod i ben ym mis Medi 2025, a oedd yn

rhoi digon o amser i hyrwyddo'r cyfleuster, cyflwyno gweithgareddau amgen ac ystyried dulliau darparu gwasanaeth newydd i wella cynaliadwyedd hirdymor y cyfleuster, o ystyried y cynnydd yng nghostau darparu'r cyfleuster. Nododd y Cynghorydd Feeley nad oedd hi nag unrhyw un arall, hyd eithaf ei gwybodaeth, wedi ystyried cau'r cyfleuster, ond roedd angen gwneud newidiadau i wella'r cynnig ym Meifod. Y bwriad wrth symud ymlaen oedd sicrhau fod pawb sydd â diddordeb yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas ag ailagor Meifod a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys cysylltu â theluloedd defnyddwyr cyfredol a darpar ddefnyddwyr.

Diolchodd y Cynghorydd Arwel Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad i'r Grŵp Tasg a Gorffen am eu gwaith, soniodd am drafodaethau manwl y Pwyllgor gan gefnogi argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen ymhellach fel yr amlinellir yn yr adroddiad i fuddsoddi yn y gwasanaeth i sicrhau ei fod yn cael ei ailagor cyn gynted â phosibl er mwyn diogelu ei ddyfodol a darparu ystod well o weithgareddau i ddefnyddwyr gwasanaeth yn ogystal â sicrhau bod y ddarpariaeth yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a pholisi iaith Gymraeg y Cyngor i'r dyfodol. Roedd hefyd yn falch iawn ei fod wedi clywed barn rhiant un o'r defnyddwyr gwasanaeth yn y cyfarfod.

Nododd y Cabinet yr argymhellion a oedd yn adlewyrchu casgliadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac roeddent yn falch o nodi'r adroddiad cadarnhaol er mwyn diogelu dyfodol Meifod a'r cyfle i ddarparu ystod well o weithgareddau i wneud y gwasanaeth yn fwy cynhwysol ac annog rhagor o bobl i ddefnyddio'r gwasanaeth. Fel aelod lleol, siaradodd y Cynghorydd Mark Young yn gadarnhaol am ddyfodol Meifod, ac ynghyd â'i gyd-aelod lleol, y Cynghorydd Rhys Thomas, gofynnodd a fyddai modd iddynt dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau i ailagor ac unrhyw newidiadau i'r cyfleuster yn y dyfodol, a chynigodd helpu swyddogion i gyfathrebu gyda defnyddwyr y gwasanaeth a'u theluloedd i'r dyfodol. Cadarnhaodd y Cynghorydd Feeley unwaith eto eu bwriad i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â phawb sydd â diddordeb a chysylltu â theluloedd defnyddwyr presennol yn ogystal â defnyddwyr y dyfodol. Mewn ymateb i gwestiynau pellach, rhannodd y swyddogion y wybodaeth ddiweddaraf ar y gwaith sydd angen ei gwblhau cyn ailagor y cyfleuster a sicrhawyd y byddent yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y cyfleuster yn ailagor cyn gynted â phosibl. Mewn ymateb i awgrym gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts i addasu'r geiriad yn yr argymhellion i 'Wasanaethau Meifod', cadarnhaodd y Cynghorydd Feeley ei bod yn hapus â'r argymhellion presennol yn yr adroddiad.

Gwahoddodd yr Arweinydd gwestiynau gan aelodau nad oeddent ar y Cabinet. Er bod aelodau'n gefnogol iawn o argymhellion yr adroddiad, gofynnwyd cwestiynau mewn perthynas â'r angen i arallgyfeirio i feysydd eraill o ystyried llwyddiant blaenorol Meifod gyda phryderon y byddai'r sylfaen sgiliau'n dirywio neu'n cael ei gollu, a cheisiwyd rheswm dros y gostyngiad yn atygfeiriadau'r cyfleuster a chynlluniau i gynyddu'r defnydd. Mewn ymateb i hyn a chwestiynau/sylwadau eraill, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol a swyddogion -

- gadarnhau na fyddai unrhyw ddefnyddwyr gwasanaeth y cael eu gorfodi i gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd nad ydynt yn dymuno cymryd rhan ynddynt

- mewn ymateb i'r Cynghorydd Rhys Thomas a chais pellach i gynnwys aelodau lleol, cyfeiriwyd at y bwriad i sefydlu grŵp budd-ddeiliaid i ymgysylltu â'r cynlluniau i ailagor y gwasanaeth a datblygu opsiynau i'r dyfodol.
- nodi argymhellion gan y Cynghorydd Arwel Roberts mewn perthynas ag argaeledd ffynonellau cyllid eraill ac unigolion a allai helpu gyda hyn o bosibl
- derbyn y dyhead i barhau â gweithgareddau gwaith coed yn ogystal â ffyrdd newydd o weithio fel y nodir yn yr argymhelliad, a nodwyd y byddai cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd/eiriolwyr leisio eu barn am opsiynau datblygu i'r dyfodol yn y grŵp budd-ddeiliaid.
- roedd nifer y bobl a oedd yn mynychu Meifod wedi gostwng yn ddiweddar, gyda'r rheiny a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth yn ffafrio gweithgareddau eraill; roedd y cynigion hyn yn cynnig cyfle i ehangu'r ystod o weithgareddau ac annog rhagor o bobl i ddefnyddio'r gwasanaeth.
- gwnaethpwyd atgyfeiriadau gan y Tîm Anableddau Cymhleth a oedd yn hyrwyddo Meifod ynghyd â gwasanaethau cymorth eraill, ond roedd diffyg diddordeb mewn gwaith coed.
- gwerthfawrogyd y gweithgareddau ymarferol yn arbennig ym Meifod, ond nid oedd digon o wasanaethau eraill ar gael a'r bwriad oedd manteisio ar yr agwedd honno, a gwneud y gwasanaeth yn fwy hygyrch/deniadol gyda rhagor o ddewis o weithgareddau.

O ran rhai o'r pryderon a godwyd, darparwyd sicrwydd i'r Cabinet y byddai'r argymhelliad i sefydlu grŵp budd-ddeiliaid i ystyried opsiynau i'r dyfodol yn sicrhau bod dull yn cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r materion hynny ac yn darparu dyfodol mwy cynaliadwy ar gyfer Meifod er lles pawb a oedd a wnelo â'r gwasanaeth, a byddai unrhyw opsiynau'n cael eu hystyried ymhellach gan aelodau drwy'r prosesau democrataidd arferol.

PENDERFYNWYD-

- (a) Ailagor Meifod fel gwasanaeth sy'n cael ei gynnal gan y Cyngor ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu cyn gynted ag y mae'n ddiogel, yn dilyn y buddsoddiad hanfodol i'r adeilad/cyfleusterau presennol. Rhagwelir y byddai'r gwasanaeth yn gallu ailagor erbyn mis Chwefror 2022, ond fe allai fod yn gynt os bydd y gwaith yn cael ei gwblhau'n gyflym.*
- (b) bod swyddogion yn darparu opsiynau i aelodau eu hystyried drwy'r broses wleidyddol sefydledig mewn perthynas â:*
 - *ffyrdd newydd o weithio ym Meifod i wella dysgu a sgiliau ar draws ystod o weithgareddau gan gynnwys gweithio gyda choed.*
 - *dulliau darparu gwasanaeth amgen i'w gweithredu ym Meifod gyda'r bwriad o wella cynaliadwyedd hirdymor y gwasanaeth pan ddaw prydles yr adeilad i ben mewn 4 blynedd.*
- (c) bod swyddogion yn sefydlu grŵp budd-ddeiliaid, gan gynnwys aelodau teulu cynrychiadol ac unigolion sy'n mynychu Meifod neu eu heiriolwyr i sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n llawn gydag ailagor y gwasanaeth ac yn datblygu unrhyw opsiynau i'w gweithredu yn y dyfodol.*

7 CYMERADWYO CAIS CRONFA CODI'R GWASTAD LLYWODRAETH Y DU – ETHOLAETH GORLLEWIN CLWYD

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddirprwyo awdurdod at ddibenion cytuno ar gais ar gyfer cyllid Codi'r Gwastad i'w gyflwyno i Lywodraeth y DU gan Gyngor Sir Ddinbych mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer Etholaeth De Clwyd.

Diben Cronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU oedd buddsoddi mewn isadeiledd a fydd yn gwneud y gwelliant mwyaf i fywyd pob dydd ac yn cael ei ddarparu drwy awdurdodau lleol. Roedd ceisiadau yn seiliedig ar ardaloedd etholaeth AS. Roedd tair ardal yn Sir Ddinbych: Dyffryn Clwyd, Gorllewin Clwyd a De Clwyd. Cyflwynwyd y cais ar gyfer De Clwyd yn y rownd gyntaf, ac roedd y cais yn llwyddiannus. Roedd yr adroddiad yn ymwneud â chais yr ail rownd ar gyfer etholaeth Gorllewin Clwyd, a rannir gyda CBSC, a oedd yn gweithredu fel yr ymgeisydd/awdurdod arweiniol. Gallai pob ardal etholaeth wneud cais am hyd at £20 miliwn o gyllid cyfalaf a byddai elfen CSDd yn oddeutu £10 miliwn. Roedd y prosiectau arfaethedig i'w cynnwys yn y cais wedi'u nodi yn yr adroddiad ynghyd â ffigurau bras o'r costau a fydd yn gliriach unwaith y bydd yr achosion busnes manwl wedi'u datblygu. O ystyried bod y prosiectau'n cael eu craffu a'u cymeradwyo'n drylwyr ar lefel leol, nid oedd yr Arweinydd yn ystyried bod angen craffu pellach ar hyn o bryd. Roedd yr AS David Jones wedi cadarnhau ei fod yn cefnogi elfen CSDd o'r cais, cynhaliwyd ymgynghoriad manwl gydag aelodau lleol, ac ymgysylltwyd â Chyngor Tref Rhuthun. Disgwylwyd y byddai'r dyddiad cau ar gyfer ail rownd y ceisiadau o gwmpas mis Rhagfyr 2021.

Soniodd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad am y broses a gymerwyd i ddatblygu'r cais, a oedd yn cynnwys trafodaethau manwl ar lefel leol a chydweithio agos gyda'r AS David Jones i ddyfeisio thema ynghyd ag asesu a sgorio prosiectau drwy ffurfio achosion busnes. Y thema ar gyfer y cais oedd buddsoddiad diwylliannol a threftadol. Byddai gwaith pellach yn cael ei gwblhau ar y prosiectau nad ydynt yn cael eu datblygu fel rhan o'r cais, gyda'r bwriad o geisio ffrydiau cyllido amgen i'w datblygu fel sy'n briodol.

Croesawodd y Cabinet yr adroddiad a'r posibilrwydd o fuddsoddiad sylweddol yn yr ardal, ac roeddent yn gefnogol iawn o'r argymhellion i ddatblygu'r cais. Talodd y Cynghorwyr Bobby Feeley, a Huw Hilditch-Roberts (aelodau Rhuthun) deyrnged i'r gwaith gwych a gwblhawyd gan swyddogion a'r gymuned leol i ddatblygu'r prosiectau hyn, gan amlygu'r cyfoeth o wybodaeth a oedd ei hangen arnynt i lywio'r broses a'r gwaith a gwblhawyd mewn ychydig iawn o amser, ynghyd â chefnogaeth David Jones, yr AS a'i gymeradwyaeth. Pe bai'r cais yn llwyddiannus, byddai'r buddion i Rhuthun a'r ardal ehangach yn drawsnewidiol, gyda buddion amlwg i breswylwyr a chymunedau lleol o ran cyfleusterau newydd a gwell, gan wneud gwahaniaeth amlwg i fywydau pobl a'r economi lleol. Fel Cadeirydd Grŵp Ardal Aelodau Rhuthun, nododd y Cynghorydd Emrys Wynne ei fod yn gefnogol iawn o'r cynigion.

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r Cabinet, cynghorodd yr arweinydd a swyddogion -

- nad oedd yn hysbys ar hyn o bryd pryd fyddai penderfyniad yn cael ei wneud ar y cais ar ôl ei gyflwyno i Lywodraeth y DU ond roedd disgwyl penderfyniad cyflym o ystyried bod disgwyl i'r prosiectau gael eu darparu erbyn mis Mawrth 2024, ac roedd yr angen i weithredu'n gyflym wedi cael ei godi gyda'r Tîm Rhanbarthol sy'n arwain ar y Gronfa Codi'r Gwastad.
- roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda James Davies, AS mewn perthynas â chais Dyffryn Clwyd er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r heriau o ran dyrannu pob prosiect mewn un cais, a gobeithiwyd y byddai modd mynd i'r afael â'r heriau hyn cyn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet ym mis Rhagfyr, a'r bwriad oedd ei ddwyn ymlaen o fewn yr amserlen ar gyfer cyflwyno cais yr ail rownd i Lywodraeth y DU.
- roedd llwyddiant cais De Clwyd yn y rownd gyntaf wedi cael ei gyhoeddi, ond roeddent yn dal i aros am ddyraniad grant ffurfiol gan Lywodraeth y DU, a oedd wedi gofyn am ragor o wybodaeth ar brosiectau a oedd yn cael eu llunio ar hyn o bryd – roedd gwaith yn mynd rhagddo gydag arweinwyr prosiect i ddechrau datblygu'r prosiectau hynny cyn gynted â phosibl.

Diolchodd yr Arweinydd i'r swyddogion am eu gwaith diflino yn datblygu'r cais a phrosiectau hanfodol, ac i bawb sydd wedi cyfrannu at y broses, a allai, wneud gwahaniaeth sylweddol pe bai'n llwyddiannus.

PENDERFYNWYD y byddai'r Cabinet yn –

- (a) cefnogi thema'r cais, y prosiectau arfaethedig i'w cynnwys yn y cais a gwerth dangosol pob prosiect, a*
- (b) rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a Phennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd a'r Arweinydd, i fireinio'r prosiectau a'r costau cysylltiedig yn ôl yr angen a chytuno i Gyngor Sir Ddinbych gyflwyno cais i Lywodraeth y DU, mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ar gyfer etholaeth Gorllewin Clwyd.*

Ar y pwynt hwn (11.45 am) cymerodd y pwyllgor egwyl byr.

8 GWAHODDIAD I DENDRO'R GWASANAETH ASESU COF RHANBARTHOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i Gyngor Sir Ddinbych (CSDd) weithredu fel y comisiynydd arweiniol ar ran y Tîm Cydweithio Rhanbarthol (partneriaid y chwe Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yng Ngogledd Cymru] ar Wahoddiad i Dendro gyda gwerth contract posibl o hyd at £3.36 miliwn (dros gyfnod posibl o 5 mlynedd) ar gyfer y Gwasanaeth Asesu Cymorth Cof Rhanbarthol. Byddai'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithrediad Strategaeth Dementia Gogledd Cymru.

Roedd y rhanbarth wedi sicrhau cyllid ychwanegol / newydd a chylchol gwerth £672,000 y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu dull rhanbarthol gwell i gefnogi unigolion â dementia neu broblemau / pryderon mewn perthynas â'r cof yn ystod y camau cyn-asesu ac ôl-ddiagnosis. Darparwyd manylion y llwybr asesu cof integredig rhanbarthol i ddarparu gwasanaeth rhanbarthol hygyrch, effeithlon, effeithiol a theg ar gyfer pobl â dementia a'u gofalwyr. Byddai'r gwahoddiad i dendro'n nodi partneriaid y gallai'r prosiect weithio gyda nhw i ddatblygu'r ddarpariaeth rhanbarthol hanfodol ac roedd manylion pellach y broses dendro/comisiynu wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. O ystyried mai CSDd oedd awdurdod cynnal y gwasanaeth cydweithio rhanbarthol, ceisiwyd cymeradwyaeth gwasanaeth gan y Cabinet i'w galluogi i weithredu fel comisiynydd arweiniol ar y tendr ar gyfer y rhanbarth.

Nododd y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol fod pob partner yn awyddus i ymgymryd ag ymarfer cydgomisiynu ac na fyddai disgwyl i GSDd ddarparu unrhyw gostau neu gefnogaeth ychwanegol. Mewn ymateb i ymholiad gan yr Arweinydd ynghylch y risg yn adran 10.2 o'r adroddiad, cadarnhawyd y byddai pwy bynnag fyddai'n cymryd rôl yr awdurdod arweiniol yn cael eu hindemnio gan bob un o'r partneriaid mewn perthynas â'r risg o her gyfreithiol.

PENDERFYNWYD bod:

- (a) *Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel y Comisiynydd Arweiniol ar gyfer y Gwahoddiad i Dendro'r Gwasanaeth Asesu Cymorth Cof Rhanbarthol*
- (b) *ymarfer y Gwahoddiad i Dendro'n cael ei arwain gan dîm caffael Cyngor Sir Ddinbych er mwyn sicrhau bod y drefn briodol yn cael ei dilyn sy'n addas ar gyfer gwerth posibl y contract, a*
- (c) *y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall a rhoi ystyriaeth i'r Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad I yr adroddiad) fel rhan o'i benderfyniad.*

9 TENDR CERBYDAU FFLYD NEWYDD AR GYFER Y MODEL GWASTRAFF NEWYDD

Cyflwynodd y Cyngorydd Brian Jones yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgymryd â phroses dendro i nodi prif contractwr i ddarparu cerbydau fflyd newydd i gefnogi Model Gwastraff ar gyfer casglu gwastraff aelwydydd, masnach a chymunedol.

Byddai'r ymarfer tendro arfaethedig yn helpu i ddarparu'r newid gwasanaeth arfaethedig ar gyfer Model Gwastraff newydd ac roedd manylion y broses dendro wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ynghyd ag amserlenni a gwerth amcangyfrifedig y contract ar gyfer fflyd diesel gyda'r posibilrwydd o ystyried prynu cerbydau trydan hyd at 20%, yn amodol ar gyllid gan ffynonellau eraill i dalu'r gwahaniaeth y gost rhwng cerbydau diesel a thrydan - roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â hyn. Oherwydd yr amserlenni tynn, er mwyn sicrhau bod y fflyd yn barod ar gyfer y gwasanaeth newydd, roedd yn rhaid hysbysebu'r tendr cyn gynted â phosibl a gofynnwyd i'r Cabinet wneud

penderfyniad mewn perthynas â chymeradwyo'r ymarfer tendro cyn gynted â phosibl.

Tynnwyd sylw'r Cabinet at y costau dangosol diweddaraf ar gyfer y cerbydau fflyd a oedd ar gael ers cyhoeddi'r adroddiad. Y gyllideb ar gyfer y fflyd oedd £2.554 miliwn ac roedd yr amcangyfrif newydd yn awgrymu pwysau o £770,000 gyda'r costau dangosol diweddaraf yn awgrymu y gallai'r fflyd gostio hyd at £3.325 miliwn – ni fyddai'r costau gwirioneddol yn hysbys nes y byddai'r tendrau wedi cael eu cyflwyno ym mis Ionawr. Roedd y pwysau hwn o ganlyniad i gynnydd o 25% mewn prisiau cerbydau am resymau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Byddai'r pwysau ar gostau'r fflyd yn cael ei fodloni gan y swm wrth gefn a risg o £2 filiwn o fewn y gyllideb prosiect gwastraff cyffredinol, fodd bynnag, byddai rhagor o alw ar y swm hwnnw wrth symud ymlaen gyda phwysau i'w ddisgwyl yn y broses dendro ar gyfer cam 2 gwaith adeiladu'r depo yn sgil costau cynyddol y deunyddiau. Roedd disgwyl y byddai'r costau tendr ar gyfer yr elfen honno ar gael erbyn gwanwyn 2022, a byddai'r Cabinet yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bryd hynny. Roedd trafodaethau hefyd yn mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru i archwilio opsiynau cyllido ychwanegol i fynd i'r afael â'r pwysau hynny. Yr hyn a geisiwyd yn y cyfarfod hwn felly oedd cymeradwyaeth y Cabinet i ddechrau'r broses gaffael er mwyn sicrhau bod y fflyd yn barod mewn pryd ar gyfer y newid gwasanaeth.

Roedd prif feysydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y canlynol -

- pe bai'r amcangyfrifon o ran costau ar gyfer y fflyd yn cael eu gwireddu, ni fyddai unrhyw broblem â dyrannu'r contract hwn o ystyried y byddai modd defnyddio'r gronfa wrth gefn a risg o £2 filiwn i fodloni'r pwysau – fodd bynnag, pe bai angen y swm amcanol llawn, dim ond £1.2 miliwn fyddai ar ôl yn y gronfa wrth gefn a risg ar gyfer y prosiect.
- o ystyried y posibilrwydd o gynyddiadau pellach o ran costau elfennau eraill o'r prosiect, mae'n bosibl na fyddai'r gronfa wrth gefn a risg o £2 filiwn yn ddigonol - roedd gwaith yn mynd rhagddo i ystyried atebion cyllido allanol a mewnol er mwyn osgoi'r canlyniad hwnnw.
- byddai'n anodd rhagweld y goblygiadau ariannol ar elfennau eraill o'r prosiect o ystyried yr ansicrwydd mewn perthynas â'r posibilrwydd o gynnydd mewn costau i'r dyfodol.
- cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol a swyddogion eu bod yn gyfforddus â sefyllfa gyffredinol y prosiect a sicrhawyd yr aelodau bod trefniadau llywodraethu a monitro cadarn ar waith i oruchwylio elfennau ariannol y prosiect ac y byddai'r Cabinet yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau ynghyd â manylion pellach y tendr ar gyfer y fflyd newydd ym mis Ionawr
- amlygwyd yr effaith o ddarparu cerbydau trydan fel rhan o'r fflyd newydd o ystyried y pwysau ariannol, ac ailadroddodd swyddogion ymrwymiad y Cyngor i ddefnyddio cerbydau trydan a chynyddu nifer y cerbydau trydan ar y fflyd cyn belled bod hynny'n parhau i fod yn opsiwn hyfyw – byddai diweddariad pellach ar yr elfen honno'n cael ei chynnwys fel rhan o'r adroddiad i'r Cabinet ym mis Ionawr.

Nododd y Cabinet oblygiadau ariannol y prosiect cyffredinol fel y'u hamlinellwyd yn ogystal â'r amserlenni tynn sydd ynghlwm â'r broses dendro ar gyfer y fflyd newydd. Nodwyd y byddai canlyniad y broses dendro a'r argymhelliad ar gyfer

dyrannu'r contract yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Ionawr a fyddai'n cynnig sicrwydd ynghylch elfen ariannol y fflyd cerbydau newydd.

PENDERFYNWYD y byddai'r Cabinet yn –

- (a) *cymeradwyo'r ymarfer tendro arfaethedig fel y manylir yn yr adroddiad,*
- (b) *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 i'r adroddiad), a'r Ffurflen Comisiynu Cerbydau Fflyd (Atodiad 2 i'r adroddiad) a'r Llinell Amser (Atodiad 3 i'r adroddiad), fel rhan o'i ystyriaethau,*
- (c) *cadarnhau bod y penderfyniad hwn yn cael ei weithredu ar unwaith, oherwydd yr angen i ddechrau'r Gwahoddiad i Dendro ar ddechrau mis Rhagfyr 2021 i sicrhau bod y nwyddau'n cael eu derbyn mewn pryd ar gyfer lansio'r model Gwasanaeth newydd. Mae hyn oherwydd bod yr amser aros am gerbydau yn hir ar hyn o bryd.*
- (d) *nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Ionawr 2022 i gael cymeradwyaeth ar gyfer Dyfarnu'r Contract ar ôl y broses dendro, a fydd hefyd yn cadarnhau trefniadau rheoli'r contract, costau cyflwyno tendr a manylion y contract.*

10 DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN CORFFORAETHOL, CHWARTER 2, 2021-2022

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i'r Cabinet ar ddarpariaeth Cynllun Corfforaethol 2021 - 2022 hyd ddiwedd chwarter 2 (Gorffennaf –Medi 2021).

Roedd Cynllun Corfforaethol 2017-2022 yn gosod cyfeiriad strategol y Cyngor a'i flaenoriaethau ac roedd cyfnod pum mlynedd y cynllun bron â dod i ben. Roedd y mwyafrif helaeth o gynlluniau wedi'u darparu neu ar fin cael eu darparu, ond bu'n rhaid oedi rhai ohonynt yn sgil Covid-19. Roedd Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol yn parhau i fonitro darpariaeth y cynllun ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i nodi gwersi a ddysgwyl ac edrych ymlaen at ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol nesaf ar gyfer y Cyngor newydd. Roedd y crynodeb cyffredinol yn nodi dau fesur fel 'blaenoriaeth ar gyfer gwella', fel yr oedd eisoes wedi'i nodi ar gyfer Cysylltu Cymunedau a Phobl Ifanc, ond roedd yr elfennau prosiectau wedi'u hasesu fel 'da' neu uwch.

Nododd Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad bod mesurau blaenoriaeth ar gyfer gwella'n adlewyrchu ardaloedd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor ac roedd y prosiectau a oedd o fewn rheolaeth y Cyngor wedi perfformio'n well. Roedd y meysydd gwan yn cynnwys ffigurau Un Llwybr Mynediad At Dai (SARTH) a oedd yn parhau i fod yn uchel, roedd disgwyl i adroddiad ymchwil gael ei lunio erbyn diwedd y flwyddyn, ac roedd cynnydd y prosiect teithio (Cysylltu Cymunedau) wedi bod yn araf yn sgil yr angen am rôl rheoli prosiect mae'n debyg. Er bod data pwysau iach ar gyfer plant mewn ysgolion cynradd (Pobl Ifanc) wedi dangos gwelliant, roedd yn parhau i fod yn achos pryder gan fod y cyllid ar gyfer y prosiect maetheg ysgolion bron â dod i ben, roedd hyn yn codi ystyriaethau mewn perthynas

â'r graddau y gallai'r cyngor ddylanwadu ar / rheoli pwysau pobl ifanc. Nid oedd unrhyw bryderon mewn perthynas â blaenoriaeth yr Amgylchedd. O ran y canlyniad iechyd corfforaethol, roedd y saith maes llywodraethu'n ymddangos yn iach ac nid oedd llawer o bryderon yn codi, fodd bynnag, roedd absenoldeb salwch wedi cynyddu rhywfaint.

Amlygodd yr Arweinydd bod y Cynllun Corfforaethol wedi bod yn fwriadol uchelgeisiol ac roedd y meysydd heriol yn ymwneud yn bennaf â'r blaenoriaethau hynny a oedd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Nododd bod cysylltedd digidol yn faes arbennig o heriol ac roedd y Cyngor wedi ceisio dylanwadu ar gyflymder y newid, ac er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, ni lwyddwyd i symud ymlaen fel y gobeithiwyd. Roedd yn werth nodi bod rhai blaenoriaethau a nodwyd ar ddechrau tymor cyfredol y Cyngor yn parhau i fod yn berthnasol a gobeithiwyd y byddai'r gwasanaethau'n parhau i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau a'u sefydlu mewn cynlluniau gwasanaeth i'r dyfodol.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn nodi'r cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd chwarter 2 2021/22 ac yn cadarnhau cynnwys yr adroddiad drafft.

11 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb fel yr amlinellir isod -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2021/22 oedd £216.818 miliwn (£208.302 miliwn yn 2020/21).
- rhagwelwyd gorwariant o £1.179 miliwn ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol (£0.656 miliwn fis diwethaf, roedd yr amrywiant hwn yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yn y defnydd o gontractwyr allanol/cynnydd mewn prisiau deunyddiau ar gyfer Gwasanaethau Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol [£102,000] a goblygiadau ariannol y cynnydd mewn costau contractau ysgolion ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd [£464,000])
- manylion arbedion ac arbedion effeithlonrwydd y cytunwyd arnynt sy'n werth £2.666 miliwn o ran ffioedd ac arwystlon, arbedion gweithredol, newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth ac ysgolion
- tynnwyd sylw at y risgiau a thybiaethau presennol yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol, cyllidebau corfforaethol ac ysgolion ynghyd ag effaith ariannol y coronafeirws a'r sefyllfa o ran ceisiadau ariannol i Lywodraeth Cymru, a
- rhoddwyd y wybodaeth gyffredinol ddiweddaraf ynghylch y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai, Rheoli Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf gyda diweddariad ar brosiectau mawr.

Ceisiwyd cymeradwyaeth y Cabinet hefyd ar gyfer addasu Llys Anwyl, y Rhyl, i randai rhent cymdeithasol fel yr amlinellir o fewn yr adroddiad, a darparodd y Rheolwr Datblygu Tai ragor o wybodaeth a throsolwg o'r prosiect.

Amlygodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo resymau dros y gorwariant ar gludiant i'r ysgol gan nodi y byddai asesiad yn cael ei chwblhau fel rhan o'r broses gyllidebu i nodi a ddylid cynnwys pwysau ar gyfer yr elfen honno wrth symud ymlaen neu beidio. Mewn ymateb i gwestiynau, eglurodd hefyd bod Llywodraeth Cymru wedi tynhau'r meini prawf ar gyfer cymorth ariannol drwy'r gronfa caledi, a byddai'r goblygiadau hynny'n gliriach unwaith y byddwn wedi cael gwybod am ganlyniadau ceisiadau, byddai unrhyw broblemau a gaiff eu nodi fel rhan o'r broses honno'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet. O ran Ailddatblygu Marchnad y Frenhines yn y Rhyl, roedd y dyfynbris cychwynnol i ddarparu Cam 1 £1.4 miliwn dros y gyllideb, ac roedd swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r contractwyr ar yr opsiynau dylunio manwl i leihau'r costau i fodloni'r gyllideb neu fuddsoddi ymhellach mewn cynllun gwell.

PENDERFYNWYD y byddai'r Cabinet yn –

- (a) *nodir cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2021/22 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, ac yn*
- (b) *cymeradwyo addasu Llys Anwyl, y Rhyl yn rhandai rhent cymdeithasol (fel yr amlinellir yn Adran 6.7 o'r adroddiad ac Atodiadau 5 a 6 yn yr adroddiad)*

12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau canlynol ar gyfer mis Rhagfyr-

- Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr
- Sefydlu Cydbwyllgor Corfforedig Rhanbarthol Gogledd Cymru

PENDERFYNWYD nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 am.